Ministry of Justice

# Crynodeb gweithredol

## Y cefndir

1. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar gynigion i ddiwygio trefniadau pensiwn barnwrol. Bwriadwn foderneiddio'r darpariaethau yn Neddf Pensiynau Barnwrol ac Oedran Ymddeol 1993 (JUPRA) (a ddisgrifir o hyn ymlaen fel y 'cynllun diwygiedig') ar gyfer croniadau yn y dyfodol, fel y byddent yn unol ag egwyddorion Hutton ond hefyd yn anghofrestredog at ddibenion treth. Byddai barnwyr sy'n cronni buddion dan ddarpariaethau presennol JUPRA neu'r trefniant cyfatebol i'r rhai y telir ffi iddynt, y Cynllun Pensiwn Barnwrol i'r Rhai y Telir Ffi Iddynt (FPJPS) a'r rhai sy'n aelodau o gynllun 2015, y Cynllun Pensiwn Barnwrol Newydd (NJPS), yn trosglwyddo i adran ddiwygiedig y cynllun ac yn cronni buddion oddi tano. Amlinellir nodweddion diwygiedig y cynllun yn y ddogfen ymgynghori hon. Mae'n bwysig nodi y byddai buddion pensiwn sydd eisoes wedi'u hennill yn cael eu diogelu ac, i'r rheini sydd mewn cynlluniau cyflog terfynol ar hyn o bryd, byddai'r buddion hyn yn gysylltiedig â'u cyflog pan fyddant yn ymddeol neu'n gadael swydd farnwrol.

2. Cyflwynodd Deddf Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 fframwaith statudol ar gyfer diwygio cynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus. Yn dilyn ymgynghori â'r farnwriaeth, cyhoeddodd yr Arglwydd Ganghellor ar y pryd yr egwyddorion ar gyfer diwygio trefniadau'r cynllun pensiwn barnwrol ym mis Chwefror 2013 ac, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, sefydlwyd NJPS o dan Reoliadau Pensiynau Barnwrol 2015.

3. I'r rhan fwyaf o farnwyr, mae aelodaeth o NJPS yn llai buddiol yn ariannol o'i gymharu â'r hen gynlluniau. Y rheswm pennaf am hyn yw bod NJPS yn gynllun cofrestredig at ddibenion treth, sy'n golygu bod aelodau'n ddarostyngedig i gyfyngiadau lwfans blynyddol a lwfans oes ar y buddion rhydd o dreth a gronnir o fewn y cynllun.

4. Roedd cyflwyno NJPS yn cynnwys darpariaethau trosiannol i ddiogelu'r rheini sydd agosaf at ymddeol rhag effeithiau diwygiadau pensiynau 2015. Yn *McCloud,*[1] daeth grŵp o farnwyr iau ag achos cyfreithiol yn herio cyfreithlondeb y darpariaethau hyn ac, ym mis Rhagfyr 2018, penderfynodd y Llys Apêl fod y mesurau diogelu trosiannol yn gwahaniaethu'n uniongyrchol ac anghyfreithlon ar sail oedran. Anfonwyd yr achos at y Tribiwnlys Cyflogaeth i benderfynu ar rwymedi i'r hawlwyr. Mae cynigion y Weinyddiaeth Gyfiawnder er mynd i'r afael â gwahaniaethu yn y gorffennol yn erbyn y rhai nad oeddent yn hawlwyr wedi'u

[1] Yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder ac un arall v McCloud ac eraill; Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref ac eraill v Sargeant ac eraill, [2018] EWCA Civ 2844

nodi mewn dogfen ymgynghori ar wahân. Mae'r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar sicrhau triniaeth gydradd ar draws y farnwriaeth gyfan yn y dyfodol drwy symud pob barnwr i'r cynllun diwygiedig, a'n nod yw gwneud hynny yn 2022.

5. Yn 2018, cyhoeddodd y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion ei Adolygiad Mawr o'r Strwythur Cyflogau Barnwrol, a dynnodd sylw at broblemau recriwtio a chadw cynyddol ar bob lefel o'r farnwriaeth. Daeth i'r casgliad mai diwygiadau pensiynau 2015 a newidiadau dilynol i drothwyon treth pensiynau oedd yn achosi'r problemau hyn yn bennaf.

6. Gan ymateb i adolygiad y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion ym mis Mehefin 2019, cyflwynodd y Llywodraeth Lwfans Recriwtio a Chadw dros dro ar gyfer barnwyr Uchel Lys, Cylchdaith ac Uwch Dribiwnlys cyflogedig, a'r rhai uwch eu pen yn yr hierarchaeth farnwrol, a oedd yn gymwys i ymuno â NJPS. Gwnaeth y Llywodraeth ymrwymiad cyhoeddus hefyd i ddatblygu ateb seiliedig ar bensiynau ar gyfer y farnwriaeth gyfan, a fyddai'n ceisio mynd i'r afael yn y tymor hir â'r problemau recriwtio a chadw a nodwyd gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion. Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi ein cynigion ar gyfer gwireddu hynny.

## Cyflwyno cynllun diwygiedig

7. Y nod yw y bydd y cynllun diwygiedig yn agored i ddeiliaid swyddi barnwrol cyflogedig a'r rhai y telir ffi iddynt o 2022 ymlaen. Byddai pob deilydd swydd farnwrol gyflogedig a'r rhai y telir ffi iddynt sy'n dal swydd pan fydd y cynllun yn dechrau, ac sy'n gymwys i gael pensiwn barnwrol, yn ymuno â'r cynllun diwygiedig yn awtomatig mewn perthynas â gwasanaeth yn y swydd honno oni bai eu bod yn penderfynu eithrio o'r cynllun.

8. Rydym yn cynnig darparu cynllun wedi'i foderneiddio ar gyfer croniadau yn y dyfodol o fis Ebrill 2022 ymlaen drwy ddiwygio JUPRA. Y bwriad yw y byddai'r holl drefniadau pensiwn barnwrol nad ydynt yn rhai JUPRA[2] yn cau i groniadau yn y dyfodol yn 2022 – bydd JUPRA wedyn yn cael ei ddiwygio i ddarparu ar gyfer croniadau yn y dyfodol yn y cynllun diwygiedig. O ddyddiad gweithredu'r cynllun diwygiedig, byddai aelodau presennol JUPRA, gan gynnwys y rhai a fyddai yn JUPRA o ganlyniad i rwymedi *McCloud*, yn aros yn JUPRA, ond fel aelodau o'r adran o'r cynllun sydd wedi'i moderneiddio.

---

[2] Y cynlluniau etifeddiaeth gan gynnwys Cynllun 1981 a sefydlwyd o dan Ddeddf Pensiynau Barnwrol 1981; Cynllun Pensiwn Barnwrol Newydd 2015 a sefydlwyd o dan Reoliadau Pensiynau Barnwrol 2015; a'r Cynllun Pensiwn Barnwrol i'r Rhai y Telir Ffi Iddynt a sefydlwyd o dan Reoliadau Barnwrol (Barnwyr y Telir Ffi Iddynt) 2017.

9. Byddai barnwyr a oedd yn aelodau o NJPS yn trosglwyddo ac yn ymuno â'r adran hon wedi'i moderneiddio o JUPRA yn 2022. **Mae'n bwysig nodi y byddai buddion pensiwn sydd eisoes wedi'u hennill yn cael eu diogelu ac, i'r rheini sydd mewn cynlluniau cyflog terfynol ar hyn o bryd, byddai'r buddion hyn yn gysylltiedig â'u cyflog pan fyddant yn ymddeol neu'n gadael swydd farnwrol.**

10. Bydd angen deddfwriaeth sylfaenol i ddarparu'r fframwaith statudol ar gyfer croniadau yn y dyfodol, gan gynnwys cymhwyso'r trefniadau llywodraethu, rheoli costau a gweinyddu sy'n ofynnol o dan Ddeddf Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus 2013. Bwriadwn gyhoeddi ail ymgynghoriad a fydd yn amlinellu rheoliadau penodol y cynllun, ac y byddem yn ymateb iddynt cyn gweithredu'r cynllun diwygiedig.

11. Dylid nodi y bydd y cynigion hyn yn berthnasol i aelodau cymwys o'r farnwriaeth yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon y mae gan Senedd y DU gymhwysedd llwyr i ddeddfu ar eu cyfer. Felly, mae nifer o swyddi barnwrol yn yr Alban a Gogledd Iwerddon na fydd y diwygiadau hyn yn berthnasol iddynt.

## Nodweddion arfaethedig y cynllun diwygiedig

12. Bydd llawer o nodweddion y cynllun diwygiedig yn cyd-fynd â phrif egwyddorion diwygiadau pensiwn 2015. Mae hyn yn cynnwys model croniad cyfartalog gyrfa, dim cyfyngiad ar nifer y blynyddoedd mewn swydd sy'n cronni a chysylltu'r Oedran Pensiwn Arferol ag oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Byddai ein cynigion hefyd yn caniatáu i aelodau gyfnewid eu pensiwn a chymryd cyfandaliad wrth ymddeol ar gyfradd o 12:1. Mae hyn yn wahanol i'r cynlluniau cyn 2015, JUPRA ar gyfer barnwyr cyflogedig a'r Cynllun Pensiynau Barnwrol i'r Rhai y Telir Ffi Iddynt ar gyfer barnwyr sy'n derbyn ffi, sy'n cynnwys cyswllt â'r cyflog terfynol yn hytrach na chyfartaledd gyrfa, cap o 20 mlynedd ar wasanaeth, Oedran Pensiwn Arferol o 65 a darparu cyfandaliad awtomatig wrth ymddeol ar gyfradd o 2.25 gwaith y pensiwn blynyddol. Mae aelodau'r cynlluniau hyn hefyd yn derbyn Dyfarniad Gwasanaeth Barnwrol i wneud iawn am statws anghofrestredig y cynllun.

13. Fodd bynnag, byddai'r cynllun diwygiedig yn cadw rhai elfennau o JUPRA, gan gynnwys y statws anghofrestredig at ddibenion treth. Mae nifer o nodweddion y cynllun yr ydym yn ei gynnig yn llifo o'r statws treth hwn. Byddai cyfraddau cyfraniad aelodau yn is na chyfraddau NJPS i adlewyrchu'r ffaith na fyddai aelodau'n cael rhyddhad treth ar eu cyfraniadau. Byddai tâl cyfnewid atodol i ddigolledu am statws anghofrestredig at ddibenion treth y cynllun hefyd yn cael ei dalu i aelodau sy'n cyfnewid eu pensiwn am gyfandaliad. Yn unol â JUPRA, byddai'r gyfradd gronni yn cael ei gosod ar 2.50%, cynnydd o'r gyfradd 2.32% yn NJPS.

Ministry of Justice

## Effeithiau ar Gydraddoldeb

14. Rydym wedi ystyried effeithiau ein diwygiadau arfaethedig ar gydraddoldeb ac wedi dod i'r casgliad nad ydynt yn arwain at unrhyw wahaniaethu uniongyrchol. Yn ein datganiad cydraddoldeb, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r ddogfen hon, rydym yn nodi, er bod ein cynllun arfaethedig wedi'i gynllunio i fod yn fwy manteisiol o'i gymharu â NJPS i holl aelodau'r farnwriaeth, bod y manteision o fudd arbennig i uwch aelodau'r farnwriaeth, sydd fel arfer yn hŷn, yn ddynion ac yn llai amrywiol o ran ethnigrwydd. Mae hyn yn rhannol o leiaf oherwydd bod uwch aelodau o'r farnwriaeth wedi profi effeithiau arbennig o niweidiol o ganlyniad i symud o'r hen gynlluniau i'r NJPS yn 2015. Yr un yw'r cynllun i bob aelod o'r farnwriaeth a'n hasesiad ni yw bod unrhyw effeithiau gwahaniaethol posibl yn gymesur er mwyn cyflawni ein nod polisi o ddatrys y materion recriwtio a chadw yn y farnwriaeth, sy'n arbennig o ddifrifol ar yr haenau uchaf.

## Effaith economaidd

15. Rydym wedi cynnal asesiad effaith rheoleiddiol sy'n amlinellu ein hamcanion polisi a chostau a manteision amrywiaeth o opsiynau rydym wedi'u hystyried cyn penderfynu ar y cynigion i'w cyflwyno ar gyfer ymgynghori. Yn ôl ein hasesiad, nid yw'r cynigion yn debygol o arwain at gostau ychwanegol nac arbedion i fusnesau, elusennau na'r sector gwirfoddol. Mae ein holl opsiynau'n golygu costau i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r gweinyddiaethau datganoledig i ariannu'r cynlluniau pensiwn arfaethedig. Rydym wedi amlinellu sut mae'r costau hyn yn cymharu rhwng pob opsiwn. Rydym hefyd wedi dangos sut y byddai'r opsiynau gwahanol yn effeithio ar y tâl a gaiff barnwyr yn eu poced ar draws gwahanol grwpiau cyflog.

## Rhyngweithio ag ymgynghoriadau eraill

16. Yn ogystal â'r cynigion ar gyfer cynllun pensiwn barnwrol diwygiedig, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ymgynghori ar yr un pryd ar gynigion i:

- mynd i'r afael â'r gwahaniaethu a wynebir gan yr holl farnwyr yr effeithir arnynt yn sgil dyfarniad *McCloud*;
- darparu pensiwn am wasanaeth y talwyd ffi amdano cyn 2000 yng ngoleuni dyfarniadau *O'Brien 2*[3] a *Miller*[4] ; a
- chynyddu'r oedran ymddeol gorfodol barnwrol i ddeiliaid swyddi barnwrol, gan gynnwys ynadon a chrwneriaid, i un ai 72 neu 75.

---

[3] *'Brien v Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (Achos C-432/17) [2018]*

[4] *Miller ac Ors v Y Weinyddiaeth Gyfiawnder [2019] UKSC 60*

17. Efallai y bydd ymatebwyr am ystyried yr ymgynghoriadau hyn ar yr un pryd i ddeall ble ac i ba raddau y gallai dibyniaethau posibl ddylanwadu ar eu hymateb.

## Y camau nesaf a'r amserlen

18. Daw’r ymgynghoriad hwn i ben ar 16 Hydref 2020. Byddwn yn ceisio cyhoeddi ein hymateb ffurfiol i’r ymgynghoriad hwn ar ddyluniad y cynllun ym mis Ionawr 2021. Unwaith y byddwn wedi gwneud hyn, bydd angen deddfwriaeth sylfaenol arnom i nodi’r fframwaith statudol ar gyfer y diwygiadau ac is-ddeddfwriaeth i nodi manylion y cynllun. Cynhelir ail ymgynghoriad ar reoliadau’r cynllun. Rydym yn gweithio tuag at weithredu’r cynllun diwygiedig ym mis Ebrill 2022.